Deg Awgrym ar gyfer dylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau

1. Enwch yr union berson a all benderfynu pethau ar eich rhan.
2. Gwnewch waith ymchwil i gael ei enw/henw (a'r sillafu cywir), teitl, teitl swydd a manylion cyswllt.
3. Dechreuwch drwy egluro pwy ydych chi a beth yw eich pryderon.
4. Anfonwch/cymerwch becyn gwybodaeth sy'n rhoi gwybodaeth iddyn nhw am eich cefndir a beth yw eich pryderon.
5. Ceisiwch greu cydberthynas yn gyntaf, yn hytrach na gofyn am yr hyn rydych chi ei eisiau ar unwaith
6. Nodwch bwyntiau sydd o ddiddordeb cyffredin fel bod eich cais yn ymddangos fel rhywbeth a fydd o fudd iddyn nhw.
7. Ceisiwch ymddangos yn hyderus. Os byddwch chi'n rhoi'r argraff eich bod yn mynd i gael eich gwrthod, mae hyn yn llawer mwy tebygol o ddigwydd.
8. Mae'n bosibl y byddan nhw hyd yn oed am eich helpu. Cofiwch hyn.
9. Byddwch yn benodol - gofynnwch am yr hyn rydych chi ei eisiau. Peidiwch â gadael pethau'n amwys.
10. Cofiwch ofyn am ymateb bob amser.

GwaithleuenctidCymru

pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government